

(Parhâd o dudalen flaenorol)

Defnyddiwyd y ddistyllfa i garcharu Almaenwyr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Clywais blentyn goed, pan oeddwn yn dysgu, ar yr union fan lle cynhyrchwyd y wisgi, yn cyfeirio at y cae agosaf i'r ysgol fel 'dôl Jyrmans'. Daeth Gwyddelod yma wedi Gwrthryfel Pasg 1916. Rhyfeddai'r Gwyddelod at enw Ffrongoch gan mai 'franpach' ydy'r Wyddeleg am lygoden fawr. A doedd dim prinder o'r rheini yn y gwersyll milwrol.

Ond er y methiant hwn, roedd R. J. Lloyd Price yn ŵr busnes. Trodd ei olygon at Ffynnon Beuno, sydd i'w gweld heddiw ar stâd dai Fawnog Fach ar gyrion tre'r Bala. Dyma farchnata'r dŵr dan yr enw *Rhiwalis Table Waters*, a hysbysebwyd ei fod 'cyn oered â nad asyn'. Yn ôl R. J. Lloyd Price, roedd y dŵr yn ddelfrydol i'w ychwanegu at frandi. Yn ôl yr hysbyseb,

*'Once drunk always drunk!'*

Ond methiant fu'r fenter hon eto.

Sefydlodd R. J. Lloyd Price waith brics a theils ar y stâd; gwnaed brwsys yn y 'Sgubor Isa' - rhwng mynedfa'r Rhiwlas a ffordd Y Bala. Cynhyrchwyd dros hanner cant o wahanol fathau o frwsys yno.

Daeth Stâd Rhiwaedog i feddiant y teulu drwy briodas Richard Watkin Price, a gofallodd R. J., yr ŵyr, bod chwarel lechi a chalch yma, melin lifio a lladd-dy. Ynghanol yr holl brysurddeb, cai R. J. Lloyd Price amser i lenyddu. Cyhoeddodd *'Practical Pheasants Rearing; Rabbits for profit and Rabbits for Power; Dogs' Tales wagged by R. J. Lloyd Price - a book for middle-aged children; Walks in Wales; Dogs Ancient and Modern; Rulage or Rhiwlas, Ruedok or Rhiwaedog and the Dee Valley'*.

## Gŵr o flaen ei oes

Cafodd R. J. Lloyd Price weledigaeth y gallai gronni'r Afon Tryweryn a gwerthu'r dŵr i Lundain. Gŵr o flaen ei oes. Cafodd syniad hefyd, o foddi tre'r Bala. Ond y tu ôl i hyn i gyd roedd gan denantiaid Y Rhiwlas gwynion difrifol yn ei erbyn. Roedd ffesantod y plas yn difetha'r cynydau. Oherwydd yr holl gwningod, byddai'r tenantiaid yn colli aceri o ŷd. Y gwir oedd i daid R. J. Lloyd Price



*Beddrod y Teulu ym mynwent eglwys Llanfor ger y Bala*

(Richard Watkin Price) ychwanegu llawer o dir ar y stâd - 54 o ffermydd ynghylch y Bala. Rhwng siroedd Caernarfon, Dinbych a Meirionnydd, daeth 41,000 acer i feddiant y stâd dan ddwylo Richard Watkin Price a bu'n rhaid i'r ŵyr wynebu sefyllfa o ddiffyg arian.

Deillia hyn yn rhannol oherwydd hoffter R. J. Lloyd Price o gamblo. Ai mor bell â Chair o ddiwallu ei awch. Dywedir iddo roi gwerth hanner y stâd ar geffyl o'r enw Bendigo mewn gwahanol rasys ar y pryd, megis Ascot a'r Kempton Jubilee Stakes a'r Eclipse Stakes ym Mharc Sandown ym 1886. Mae'n debyg i Bendigo ennill £20,100 a dywed rhai iddo ennill cyfanswm o £30,000 i R. J. Lloyd Price. Gyda pheth o'r arian, cododd sgweiar Y Rhiwlas feddrod tal iddo'i hun a'i deulu ym 1887 ym mynwent Eglwys Llanfor - tri deg chwech o flynyddoedd cyn marw R. J. Ll. Price. Mae'r beddrod hwnnw i'w weld o hyd ac arno rigwm o waith yr yswain;

*As to my latter end I go*

*To seek my Jubilee*

*I bless the good horse Bendigo*

*Who built this tomb for me.*

Cŵyn arall yn ei erbyn oedd ei wleidyddiaeth. Cyn etholiad 1859, disgwyliid i

bob tenant fynd i Westy'r Bull yn y Bala i gyfarfod stiward y stâd, bob yn un. 'Os na bleidleisiwch chi yn ôl dymuniad Mr. Price (hynny yw i'r Blaid Doriaidd), cewch eich troi allan o'ch ffermydd a'ch cartrefi' oedd bygythiad y stiward. Ataliodd un ar hugain o'r tenantiaid eu pleidlais. Taflwyd pump allan o'u ffermydd (4 ohonynt yn flaenoriaid); codwyd rhent y lleill! Mewn ofn a braw yn yr etholiad nesaf ym 1865, pleidleisiodd pawb yn ôl dymuniad y meistr tir, R. J. Lloyd Price.

## Ciperiaid dieithr

Polisi Y Rhiwlas oedd cyflogi ciperiaid dieithr o Loegr ac o'r Alban. Yn 1873, un o'r rheini oedd Thomas Storer. Peintiwyd ar giat rhwng Llanfor a'r Bala;

*Thomas Storer shall be murdered.*

Eglwyswyr di-Gymraeg, hoff o'u tropyn oedd y rhelyw o'r ciperiaid ac nid oedd geirda gan y tenantiaid iddynt. Bu sawl achos o botsio o flaen Llys yr Ynadon Y Bala. Ambell dro, byddai bloeddio cymeradwyaeth i ddiffinyddion a gweiddi sarhad ar y ciperiaid, a'r dref yn llawn cynnwrf. Taflwyd ambell achos allan. Teimlad y werin oedd fod yr anifeiliaid gwyllt a'r pysgod yn eiddo pawb. Ac roedd potsio yn ffordd o ddial ar y stâd.

Yn etholiad Cyffredinol Rhagfyr 17eg 1868, roedd dau ymgeisydd, sef David Williams, Castell Deudraeth (Rhyddfrydwr) a W. R. M. Wynne (Tori). Cododd tenantiaid Stâd y Rhiwlas gan leisio'u haniddigrwydd yn erbyn gormes y meistr tir. Y tro hyn roedd gan chwarelwyr Blaenau Ffestiniog yr hawl i bleidleisio. Y diwedd fu i'r ymgeisydd Toriaidd dynnu ei enw'n ôl a gadael y sedd i'r Rhyddfrydwr. Dyma drobwynt yn hanes y stâd a Sir Feirionnydd. Lleihaodd gormes y sgweiar a gostyngwyd rhai rhenti.

Daeth William Guest o Gaint yn brif giper Y Rhiwlas a John Tee o Bontefract i ennill bywoliaeth yma fel ciper. Daethant ymhen amser mor Gymraeg a Chymreig â'r brodorion. Ac mae eu disgynyddion yma o hyd.



*Arysgrif uwchben drws y beddrod yn diolch i'r ceffyl rasio Bendigo*